YSTADEGAU

# Absenoldeb oherwydd salwch y GIG: Hydref i Ragfyr 2021

Data ar gyfraddau absenoldeb salwch y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG ar gyfer Hydref i Ragfyr 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 18 Mai 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 18 Mai 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

## Cynnwys


**Cyflwyniad**

**Prif bwyntiau**

**Tueddiadau yn y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch**

**Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn ôl sefydliad y GIG**

**Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn ôl grŵp staff**

**Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**

**Manylion cyswllt**


# Cyflwyniad

Dangosir gwybodaeth newydd ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021. Mae data ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi 2021 wedi'i ddiwygio.

Mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws (COVID-19) presennol, mae **gwybodaeth reoli (StatsCymru)** ychwanegol a mwy amserol yn cael ei chasglu ar absenoldeb oherwydd salwch. Nid yw'n cael ei gasglu ar yr un sail ac nad yw wedi cael yr un lefel o sicrwydd ansawdd â'r hyn a gyhoeddwyd yn y datganiad chwarterol hwn, ac felly bydd y ffigurau'n wahanol. Dylai'r ystadegau swyddogol yn y datganiad hwn barhau i gael eu hystyried y ffynhonnell awdurdodol o ddata


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ar absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG yng Nghymru.

Cyhoeddir gwybodaeth ar **coronafeirws a gweithgarwch a chapasiti'r GIG** mewn diweddariad wythnosol.

Daw'r data o Gofnod Staff Electronig y GIG a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Cyhoeddir y data sydd wedi'i gynnwys yn y datganiad hwn ar **StatsCymru**.

# Prif bwyntiau

Y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch cyfartalog ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2021 oedd 6.3% sef yr uchaf erioed. Roedd y cyfartaledd wedi bod yn cynyddu yn araf ers 2018 ond cynyddodd yn amlwg o Ebrill 2020 (dechrau'r pandemig). Arhosodd tua 6.0% cyn gostwng o Ionawr 2021. Fodd bynnag mae wedi codi'n sylweddol eto ers mis Mehefin 2021.

## Chwarter yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021


- Roedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn 7.3% i fyny 0.9 pwynt canran o gymharu â'r chwarter yn dod i ben 31 Rhagfyr 2020. Dyma'r gyfradd chwarterol uchaf ar gofnod.
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru oedd â'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchaf, 11.6%.
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru oedd â'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isaf, 2.5%.
- Y grŵp staff â'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchaf oedd y grŵp Ambiwlans, 12.7%.
- Y grŵp staff â'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isaf oedd staff Meddygol a Deintyddol, 2.2% .

Mae'r canrannau yn y datganiad hwn wedi'u talgrynnu i'r 0.1 agosaf; cyfrifir newidiadau pwyntiau canran gan ddefnyddio'r rhifau heb eu talgrynnu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Tueddiadau yn y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch

## Siart 1: Tueddiadau yn y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG yng Nghymru, fesul mis, Rhagfyr 2016 i Rhagfyr 2021




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

### Absenoldeb oherwydd salwch ar StatsCymru

Mae absenoldeb oherwydd salwch yn dangos amrywiad tymhorol eang drwy gydol y flwyddyn gyda'r gyfradd yn is yn yr haf ac yn uwch yn y gaeaf. Er mwyn darparu gwybodaeth gliriach am newidiadau hirdymor i gyfradd absenoldeb oherwydd salwch dangosir cyfartaledd symudol 12 mis yn Siart 1.

Mae'r siart yn dangos bod y cyfartaledd symudol 12 mis wedi parhau tua 6.0% ers mis Mai 2020 a dechreuodd leihau yn ystod hanner cyntaf 2021; mae eisoes wedi dechrau cynyddu eto i'r lefel uchaf erioed am y 12 mis yn dod i ben 31 Rhagfyr 2021.

Mae'r siart hefyd yn dangos mai cyfradd absenoldeb oherwydd salwch mis Ebrill


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2020 yw’r gyfradd fisol uchaf a gofnodwyd (7.5%) wedi ei ddilyn gan fis Hydref 2021 (7.4%). O ystyried yr amseriad mae hyn yn fwy na thebyg oherwydd y pandemig COVID-19.


Nid yw staff y GIG sy'n hunanynysu, sy’n cynnwys staff sy’n gwarchod (cafodd cyngor gwarchod ei ohirio o 1 Ebrill 2021), yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n sâl ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr ystadegau hyn. Gellir dod o hyd i **gyfraddau absenoldeb oherwydd salwch misol yn ôl sefydliad (StatsCymru)** a **grŵp staff (StatsCymru)** ar **StatsCymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn ôl sefydliad y GIG




## Canran a oedd yn absennol yn ôl sefydliad a dyddiad ar StatsCymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru oedd a'r gyfradd oherwydd salwch uchaf (11.6%) o holl sefydliadau'r GIG y chwarter yma, gyda'r gyfradd isaf yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2.5%).

Bae Abertawe oedd a'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchaf (8.4%) o'r holl fyrddau iechyd lleol (BILlau) ar gyfer y chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2021, gyda'r gyfradd isaf ym Mhowys (5.6%).

O gymharu â'r un chwarter yn 2020, roedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn uwch ym mhob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru ac eithrio BILl Cwm Taf Morgannwg ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Mae data ar gyfer pob sefydliad ar gael ar **StatsCymru**.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn ôl grŵp staff

## Siart 3: Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG yn ôl grŵp staff, chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2021 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

### Canran a oedd yn absennol yn ôl grŵp staff a dyddiad ar StatsCymru

O'r chwe grŵp staff, y grŵp Ambiwlans oedd â'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchaf y chwarter yma (12.7%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Staff Meddygol a Deintyddol oedd â’r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isaf y chwarter yma (2.2%) fel sydd wedi bod yn wir ers dechrau casglu data yn 2009.

Roedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn uwch ym mhob grŵp staff yn y chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr  2021 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

Mae data ar gyfer pob grŵp staff ar gael ar **StatsCymru**.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Daw'r data o Gofnod Staff Electronig y GIG a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr **adroddiad ansawdd**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn  ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol” sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol  hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Bethan Sherwood
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 6735
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 135/2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Absenoldeb oherwydd salwch y GIG: Hydref i Ragfyr 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-hydref-i-ragfyr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.